**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Ddydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018 am 4.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J P Curtice | L R Jones | S Pritchard |
| D W W Thomas | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Jones | Swyddog Gwybodaeth |
| Nick Williams | Prif Swyddog Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: M Durke, M A Langstone a K M Roberts

---

## 8 Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 9 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

## 10 Tueddiadau data mewn perthynas â Phrydau Ysgol am Ddim

Siaradodd Mike Jones a Nick Williams ymhellach ynglŷn â'r data a'r ystadegau a rannwyd yn y pecyn agenda, cyfeiriwyd atynt a nodwyd y canlynol:

- Mae’r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a'r rhai nad ydynt yn derbyn PYDd bron yn 20% ar oedran dechrau ysgol;
- Mae gan 46% o ddisgyblion PYDd anghenion dysgu ychwanegol o'i gymharu â 22% o'r rhai nad ydynt yn derbyn PYDd;
- Mae gan 54% o fechgyn sy'n derbyn PYDd anghenion dysgu ychwanegol o'i gymharu â 44% o'r merched sy’n derbyn PYDd;

- Mae bwlch nodweddiadol o 14-19% yng nghyrhaeddiad rhwng plant Cyfnod Sylfaen;
- Y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhywiau yw 15-18%;
- Mae gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad o ryw 20% rhwng merched a aned yn yr hydref a bechgyn a aned yn yr haf;
- Mae ystadegau tebyg i'r uchod wedi i'w gweld ledled Cymru, felly mae'n fater cenedlaethol;
- Mae data gwerth ychwanegol Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yn dangos bwlch tebyg;
- Bellach gellir arolygu effaith Dechrau'n Deg;
- Argaeledd ar gyfer olrhain a rhannu data disgyblion unigol;
- Disgyblion sy'n gymwys am PYDd;
- Effaith bosib meini prawf ychwanegol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer PYDd;
- Materion ynghylch diffyg hawlio PYDd.

Nododd Mike Jones y byddai'n cynhyrchu mwy o ystadegau ynghylch disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd y cadeirydd fod y gwahaniaethau y cyfeiriwyd atynt uchod yn rhoi canolbwynt clir a materion allweddol i'r pwyllgor eu hystyried yn y dyfodol.

Bellach bydd angen i'r pwyllgor nodi arferion da ar draws Abertawe ac yn genedlaethol er mwyn ceisio nodi unrhyw fylchau gyda'r nod o gyflwyno'r rhain i'r holl ysgolion.

Bydd hefyd angen gwybodaeth am sut mae ysgolion yn gwario'u grant datblygu disgyblion. Holir barn Estyn hefyd.

**11 Gwybodaeth gefndirol am arolygon Estyn, arweiniad Llywodraeth Cymru a'r gwahaniaeth rhwng y grant datblygu disgyblion a'r premiwm disgyblion.**

Adroddodd Nick Williams, nad oedd Helen Morgan-Rees, a oedd i fod i roi cyflwyniad ar yr eitem, yn gallu dod i'r cyfarfod am resymau personol. Oherwydd hyn, nid oedd wedi gallu cysylltu â hi ac roedd ef newydd ddychwelyd o gyfarfod yn Llandrindod.

Nododd y byddai ar ei wyliau yn ystod cyfarfod mis Awst ac roedd yn ansicr a fyddai Helen wedi dychwelyd i'r gwaith erbyn y cyfarfod hwnnw, felly awgrymodd y dylid gohirio'r eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.

Estynnodd y pwyllgor ei ddymuniadau gorau i Helen a chytunwyd i ohirio'r eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Cynllun Gwaith 2018 - 2019

Amlinellodd y Cadeirydd gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2018/2019.

Nododd y byddai'n cysylltu â Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn ag aildrefnu'r eitem uchod a ohiriwyd.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r rhaglen waith gyda'r diwygiad awgrymedig uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm

**CADEIRYDD**